Cofnodion Cyfarfod 11 Tachwedd 2014 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Ken Brown (KB)	Pat Jones	
Lena Ashley (LA)	Louise Hughes (LH)	
Iestyn Harris (IH)	Siân Gwenllïan (SG)	
George Smith (GS)	Mair Bebb Jones (MBJ)	
Nerys John		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod mis Tachwedd. **Ymddiheuriadau**: Gwyneth Williams, Sarah Riley	
1.2	Croesawodd y Cadeirydd Dylan Bryn i'r cyfarfod ac fe wahoddwyd ef i annerch yr aelodau. Dywedodd ei fod yno i gynrychioli Clwb Iau Pêl droed Y Felinheli ac roedd yn dymuno cyflwyno ar lafar cynlluniau dyfodol arfaethedig y Clwb i'r Cyngor. Yn y gorffennol roedd datblygu cae aml-bwrpas wedi bod yn nod gan Bartneriaeth y Felinheli ond yn anffodus oherwydd problemau draenio'r tir ni chafodd y prosiect ei wireddu. Yn ddiweddar awgrymwyd troi cael pêl droed yr ysgol yn gae 4G, cafwyd sgwrs adeiladol gyda'r Pennaeth. Yng nghyfarfod y Clwb penderfynwyd symud ymlaen a'r awgrym. Cafwyd sgyrsiau gyda Dafydd Einion a'r Cynghorydd Sir Siân Gwenllïan i drafod y prosiect a chael cyngor ynglŷn â chyllido'r prosiect. Dywedodd bod y Clwb yn iach yn gyllidol a bod galw mawr am ddefnydd cae o'r fath. Mae'r cae yn eiddo'r Cyngor Sir a'r hyn o bryd ac mae'r cyngor yn barod i ystyried lles tymor hir os bydda gorff statudol yn cymryd y les. Felly pwrpas annerch y Cyngor Cymuned yw gwneud cais swyddogol i'r Cyngor Cymuned os bydda'r Cyngor yn barod i gymryd y les ar ran y Clwb Iau. Diolchwyd i Dylan Bryn am ei amser.	
1.3	Ystyriwyd y cais gan yr aelodau a dywedodd y Cynghorydd Siân Gwenllïan bod y Cyngor Sir yn gadarnhaol hapus i Gorff Statudol gymryd y lles, byddai angen gwneud lles tair ffordd. Os bydd y Cyngor yn cytuno yna bydd rhaid cychwyn ymlaen a'r broses, gora bo gyntaf. Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon at Gyngor Gwynedd i ddatgan bod y Cyngor Cymuned yn fodlon mewn egwyddor i gymryd lles tymor hir ar gae'r ysgol.	**CLERC**

3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
3.1	Derbyniwyd ffurflen datgan diddordeb gan Siân Gwenllïan, Louise Hughes, Nerys John a Ken Brown ar gyfer eitem 1.3	
4.0	**COFNODION**	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 14 Hydref a 22 Hydref 2014. **Derbyniwyd cofnodion y ddau gyfarfod fel rhai cywir a'u harwyddo.**	**CLERC**
5.0	**MATERION YN CODI**	
5.1	**Kronos** -Eglurodd y Clerc bod cais wedi dod oddi wrth Clerc Cyngor Tref Gaernarfon i'r ddau Gyngor gyfarfod i drafod y mater ar y 25ain o Dachwedd 2014 yng Nghaernarfon. Penderfynwyd bod y Cynghorwyr Ken Brown, Iestyn Harris a Siân Gwenllïan yn cynrychioli'r Cyngor yn y Cyfarfod.	
5.2	**Holiadur Tai** - Cyflwynodd y Cynghorydd Nerys John crynodeb o'r adroddiad ar yr Holiadur. Mae'r adroddiad llawn i'w gweld yn Atodiad A. Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon copi at Gyngor Gwynedd, Tîm strategol Tai ag Adran y Cynllun Datblygu ar y Cyd, Grŵp Cynefin, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru a Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Y Cynghorydd Siân Gwenllian i ddarparu adroddiad i'r wasg.	**CLERC** **SG**
5.3	**Halfway -** cyflwynodd y Clerc ddatganiad oddi wrth Iwan Evans Swyddog Cyfreithiol Cyngor Gwynedd i'r aelodau ar gais y Cynghorydd Sir Siân Gwenllïan. "Nid wyf o'r farn fod cynnal cyfarfodydd o fewn y gymuned fel aelod lleol i edrych ar botensial ar gyfer defnydd cymuned o'r safle yn ei hun yn creu buddiant personol. Nid yw bod yn gefnogol i'r fenter benodol ychwaith yn groes i Protocol Cynllunio o safbwynt aelod lleol. Fodd Bynnag os yw'r trafodaethau yn crisialu i mewn i gynllun mwy pendant neu grŵp/menter ffurfiol fyddai am sicrhau diddordeb yn neu ddefnydd y safle yna byddai gofyn ystyried yda chi yn ei ymwneud a datblygiad y fenter a'i reolaeth. A gall hyn symud y clorian drosodd i sefyllfa o ddiddordeb personol."	
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**	
6.1	Rhoddodd y Cynghorydd Iestyn Harris adroddiad fer ynglŷn â phroblemau gyda llawr y neuadd a'r mater o'r larwm tân; mae cyfarfod wedi bod rhwng y pensaer a'r adeiladwr a gobeithio cael adroddiad yn fuan. Mae'r materion yn llaw'r pensaer a'r adeiladwr ar hyn o bryd.	
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL**	

7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Hydref.	
7.2	Cytundeb Gwasanaeth y Cloc - dywedodd y Swyddog Ariannol bod angen ystyried gwasanaeth cytundeb newydd ar gyfer y cloc. Cost y cytundeb am y tair blynedd nesaf fyddai £411 yr un pris a 2011. Penderfynwyd adnewyddu'r cytundeb.	**SWYDDOG ARIANNOL**
7.3	Gwasanaeth Cyfieithu - dywedodd y Swyddog Ariannol bod trefniadau menter iaith yn dod i ben. Byddai trefniadau cyfieithu yn parhau gydag Ann Llwyd ar gytundeb o £70 am wasanaeth am ddwy awr a llogi'r offer (£20). Penderfynwyd parhau a'r cytundeb yma.	**SWYDDOG ARIANNOL**
7.4	Rheoliadau Ariannol Unllais-Dywedodd y Swyddog Ariannol bod y rheoliadau perthnasol yn llawlyfr y Cyngor yn barod. Penderfynwyd ystyried mabwysiadu'r rheoliadau yng Nghyfarfod nesaf y Cyngor.	**SWYDDOG ARIANNOL**
7.5	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod erthygla diddorol ac angen sylw gan y Cyngorwedi bod yn cylchgrawn y Clerc; materion cyflogaeth a materion gweinyddiaeth y Cyngor.	
8.0	**GOHEBIAETH**	
8.1	Eich Gwasanaeth chi, Eich Dewis chi – adroddiad oddi wrth Gwasanaeth Tân ag Achub Gogledd Cymru – Penderfynwyd nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i anfon sylwadau.	
8.2	Adolygiad Terfynau Cyflymder - Cynulliad Cenedlaethol Cymru- Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon sylwadau ynglŷn â chyflymdra a materion cerddwyr a beicwyr ar y ffordd osgoi at y Cynulliad.	**CLERC**
9.0	**ADRODDIAD Y CLOC**	
9.1	Dywedodd y Clerc bod dogfennau tendr gwaith ar y cloc wedi eu cwblhau a bod Peter Wray ar fin anfon at gontractwyr am bris am y gwaith a hefyd am bris y gwaith trydanol. Dywedodd yr aelodau byddant yn hoffi cynnwys dau gwmni lleol ar gyfer y gwahoddiad i dendro am y gwaith trydanol.	**CLERC**
10.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
	Roedd cais ynglŷn â chodi Modurdy ger Glan y Môr Lodge, Y Felinheli wedi ei hysbysebu yn y wasg. Nid oedd y Cyngor wedi derbyn ymgynghoriad. Y Clerc i wneud ymholiadau a Chyngor Gwynedd.	**CLERC**
11.0	**ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT**	
	Dim i'w adrodd	
12.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
	Dim i'w adrodd	

13.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
13.1	Nid yw gwaith torri'r gwrych ar lwybrau sydd yn cael eu cynnal gan yr Asiant Cefnffyrdd wedi ei wneud hyd yma. Y Clerc i gysylltu â Merfyn Morris o'r asiant cefnffyrdd.	**CLERC**
14.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Gweler atodiad B.	
15.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
15.1	Cynllun stepiau ger y Clwb Hwylio - Cyfarfod rhwng Daniel Williams a'r Swyddog heb gymryd lle oherwydd bod y swyddog yn sâl ac oddi wrth ei waith ar hyn o bryd..	
16.0	**DIOGELWCH Y FFYRDD**	
16.1	Dywedodd y Cynghorydd Ken Brown ei fod wedi cael cyfarfod adeiladol gyda Dylan Jones o'r Uned Draffig y Cyngor Sir a bod modd cael prosiect rhwng yr ysgol a'r uned draffig ar gyfer dylunio a chodi arwyddion 20 milltir yr awr gynghorol yn y Wern.	
17.0	**ARWYDDION TWRISTIAETH**	
17.1	Roedd cais wedi dod oddi wrth fusnesau Hen Gei Llechi ynglŷn â chael arwyddion twristiaeth ar gyfer y Doc.- Ystyriwyd y cais a phenderfynwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn gefnogol mewn egwyddor ond ni fyddai'r Cyngor yn gallu rhoi cefnogaeth ariannol. Y Clerc i anfon at Gareth Cleaver.	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 09:45 yn yr hwyr.	
Llofnod:	Dyddiad:	

ATODIAD A

Adroddiad Arolwg Tai Lleol Cyngor Cymuned Y Felinheli 2014

Er mwyn gallu ymateb yn deg i broses Cyngor Gwynedd o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol, penderfynodd Cyngor Cymuned Y Felinheli wneud arolwg o anghenion tai'r pentref. Dosbarthwyd 1180 o ffurflenni i bob tŷ yn y pentref ym mis Gorffennaf 2014 gyda chais i ddychwelyd y ffurflenni i Gadeirydd y Cyngor erbyn 31/7/14.

Mae'r tabl isod yn nodi yn fras beth oedd canlyniad yr arolwg.

Holiaduron a gawsom yn ôl **128 allan o 1180**
11%
Cyfanswm lle mynegwyd angen am gartref arall yn Y Felinheli **37**
Canran o'r ymatebion a dderbyniwyd sydd angen tŷ **29%**

Rhesymau a roddwyd	**Reasons given**
Pobl hŷn eisiau tŷ llai/heb risiau Older residents wanting smaller house or without stairs.	14(11%)
Tŷ mwy ar gyfer teulu Larger house for growing family	10(8%)
Oedolyn yn byw efo rhiant ac eisiau byw yn annibynnol Adult living with parents and wanting to live independently	5(4%)
Rhentio ac eisiau prynu Renting and wanting to buy	1(0.8%)
Eisiau gardd Wanting garden	1(0.8%)
Tŷ presennol mewn cyflwr gwael Current housing in neglected condition	1(0.8%)
Eisiau tŷ mwy cyfeillgar i'r amgylchedd Eco-friendly house	1(0.8%)
Tŷ llai Smaller house	1(0.8%)
Parcio mwy hwylus ac o fewn cyrraedd trafnidiaeth cyhoeddus Easier parking and conveneint to public transport	1(0.8%)
Problemau efo Cymdogion Difficulties with neighbours	1(0.8%)
Ni roddwyd rheswm No reason given	1(0.8%)

Anghenion lletya pobl hŷn neu anabl

Rhanwyd yr ymatebion sydd yn berthnasol yn ôl oedran y trigolion
65+
Cafwyd ymateb gan 44 o bobl dros 65 oed (34% o'r holiaduron a gafwyd yn ôl)
9 yn mynegi eu bod angen tŷ/ fflat un llawr/tŷ llai/ tŷ gyda gwasanaeth gofal.

O'r rhai oedd eisiau symud, un yn unig oedd yn talu rhent ac yn chwilio am rhywle mwy addas i'w rhentu.
Roedd un yn berchen tŷ ei hun ac yn fodlon cysidro rhentu er mwyn cael cartref mwy addas i'w anghenion.
Roedd y gweddill mewn sefyllfa i brynu byngalo neu prynu cartref gyda gofal (sheltered housing)

O'r oedolion dros 65 <u>nad</u> oeddynt eisiau symud tŷ, mae yna 10 sydd yn byw mewn tŷ teras 2 lofft.

Mae yna nifer fawr o dai teras yn Y Felinheli – mae rhai yn eithaf swmpus gyda 3 llofft neu fwy. Buasai rhain yn fwy tebygol o fod gydag o leiaf 2 ystafell ar y llawr gwaelod gydag opsiwn posib o allu aros o fewn y cartref pe bai dirywiad mewn gallu i symud a methu defnyddio grisiau. Yn anffodus, mae nifer mwy o dai bychan 2 lofft yn bodoli o fewn y pentref – (i enwi rhai) Rhes Helen, Glan y Mor, rhai o dai Brynffynnon, Uwch Menai. Nis oes modd ychwanegu toiled i lawr grisiau yn nifer o'r tai hyn. Tra'n dosbarthu yr holiaduron cafwyd ymateb ar lafar gan un o drigolion Glan y Mor. Roedd hi a'i gwr oedrannus yn poeni yn fawr am y trafferthion maent yn wynebu efo defnyddio grisiau – ond roeddynt yn gadarn nad oeddynt yn edrych am gartref arall. Mae'n debyg mai hyn buasai ymateb nifer o bobl oedrannus sydd yn yr un sefyllfa. Ond efallai ei fod yn arwydd o'r math o dai y dylid cynllunio ar eu cyfer i'r dyfodol.
Oherwydd natur daearyddol y pentref, mae yna nifer o dai yn Y Felinheli gyda stepiau i fynd at brif fynedfa y tŷ.

<u>45-65 oed</u>

Roedd 5 o'r holiaduron gan pobl rhwng 45 a 65 oed yn mynegi eu bod eisiau tŷ llai neu tŷ un llawr/ llai o stepiau

Mae hi yn bwysig cysidro anghenion y bobl yn y grŵp hwn oherwydd eu bod yn gallu rhagweld eu anghenion tymor hir. Roedd 3 yn gweld eu bod angen symud mewn dros 5 mlynedd, 1 o fewn 2-5 mlynedd ac un ddim yn siŵr. Roeddynt i gyd yn berchnogion eu cartref presennol.

<u>Beth sydd ar gael yn bresennol?</u>

Mae cartrefi un llawr yn Y Felinheli yn brin ac yn methu a chyrraedd anghenion presennol y pentref.
Mae'r cartrefi hyn yn cynnwys tai sydd yn eiddo i gymdeithasau tai cymunedol yn ogystal a rhywfaint yn y sector breifat.
Mae yna rhai fflatiau llawr gwaelod preifat ar rhent ond mae y rhain yn brin – y rhan fwyaf yn yr Hen Marina sydd yn anghyfleus i bobl hŷn neu anabl i gyrraedd gwasanaeth bysiau a gwasanaethau eraill yn y pentref.
Mae yna rhai byngalos (prisiau £200,000 i fyny) yn y pentref. Nid yw y rhan fwyaf o'r rhain ar y brif ffordd neu ar y llwybr bysiau. Yn aml, mae rhain hefyd gyda stepiau at y prif fynedfa.

<u>Unrhyw ddiffyg mewn darpariaeth</u>

Nid oes yma gartrefi gyda gofal ychwanegol (extra care/sheltered housing)
Nid oes yna ddigon o fflatiau llawr gwaelod yn y sector cartrefi cymunedol/rhent cymdeithasol na chwaith yn sector breifat.
Nid oes yna ddigon o fyngalos ar gael mewn safleoedd addas yn y pentref.

Ystyriaeth pobl wrth ddewis llety addas

Mynediad at y gwasanaethau lleol(gweler isod)
Mynediad at y gwasanaeth bysus
Mynediad at lwybrau cerdded lleol ar y fflat (mae yna lwybr sydd yn addas i gadeiriau olwyn o fewn y pentref)
Tŷ heb risiau
Tŷ gyda toiled a lle cysgu ar y llawr gwaelod
Cartref gyda gofal ar yr un lleoliad neu cartref gofal ychwanegol (sheltered housing/extra care)

Effaith dirywiad iechyd

Mae canolfan feddygol wedi ei leoli yn y pentref sydd hefyd yn paratoi tabledi a ffisig. Felly nid oes angen i bobl y pentref fynd i fferyllfa.
Gelltydd serth yn ei gwneud hi yn anodd cerdded os yn byw i ffwrdd o'r prif ffordd neu y llwybr bws.

Lleoliad gwasanaethau lleol ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl:

Mae'r canlynol i gyd wedi eu lleoli yn **agos at y ffordd fawr** sydd yn rhedeg trwy'r pentref:
-Canolfan Feddygol
-Siop a swyddfa post
-Trin gwallt
-Y Felin Sgwrsio – man cyfarfod cymunedol sydd yn agored yn ddyddiol.
-Yr eglwys a'r capel
-Neuadd y pentref
-Neuadd yr eglwys (siop elusennol cymunedol)
-Tafarn a lle bwyta
-Siop cario bwyd allan (Tsineaidd)
-Y lon las/ llwybrau cyhoeddus – mae modd cerdded a beicio ar y lon las heb mynd i fyny ac i lawr gelltydd.

Gwasaneth bysiau

Mae yma elltydd serth ond mae modd cael bws ar y prif stryd ac i fyny i ardal y Wern.
Nid oes modd cael gwasanaeth bws i fyny Allt Brynffynnon, Ffordd Llwyn na chwaith i lawr i Glan y Mor.

Parcio

Mae anawsterau parcio yn bodoli i gartrefi sydd ar Stryd Bangor sydd yn creu trafferthion i bobl oedrannus a phobl gyda anabledd.

Camau sydd yn cael eu cymryd yn barod gan y Cyngor Cymuned i gysidro anghenion lletya pobl anabl a phobl hŷn:

Ers peth amser, mae'r cyngor wedi cymryd yr anghenion hyn i ystyriaeth gyda phob trafodaeth ynghylch ceisiadau cynllunio sydd yn dod gerbron y Cyngor.
Gwnaed sylwadau ynghylch hyn mewn cais gan CCG i adeiladu tai newydd yn ardal Y Wern yn ddiweddar. Roedd y cais yn cynnwys dau fyngalo a phedwar tŷ. Gwnaed cais gan Cyngor Cymuned Y Felinheli i ail-ystyried y cynllun i gynnwys dau fyngalo a dwy fflat llawr gwaelod a

dwy fflat llawr cyntaf. Buasai hyn wedi dyblu y nifer a fuasai yn addas i bobl hŷn a phobl anabl. Yn anffodus, ofer bu ein hymdrechion.
Mae'r cyngor hefyd yn ymwybodol bod creu cartrefi addas i bobl hŷn a phobl anabl y pentref yn mynd i ryddhau rhywfaint o dai mwy ar gyfer teuluoedd ifanc.
Mi fyddwn gyda diddordeb dysgu beth yw gweledigaeth Cyngor Gwynedd gyda paratoi cyfleoedd addas ar gyfer lletya pobl hŷn a phobl anabl. Mae y sefyllfa yn Y Felinheli yn achosi pryder a mae hyn yn debygol o waethygu yn ystod y degawd nesaf ac ymhellach i'r dyfodol.

Anghenion lletya oedolion ifanc

Roedd 10 ymateb gan oedolion ifanc a oedd eisiau cartrefi newydd yn Y Felinheli.
Roedd un cwpwl o dan 25 oed a'r gweddill rhwng 25 a 45 oed.
Roedd 3 o'r rhai a wnaeth ymateb heb blant, 4 efo 2 blentyn a 3 efo un plentyn.
Roedd 3 yn rhentu gan berchennog preifat. Roedd y tri hyn eisiau prynu eu cartref eu hunain. Buasai un yn gallu prynu eiddo rhwng £75,000 a £100,000, un rhwng £100,000 a £150,000 ac un rhwng £150,000 a £200,000.
Roedd 7 yn berchen eu cartref eu hunain yn barod ac eisiau cartref mwy o fewn y pentref.
Roedd un yn gallu anelu am dy £150,000-£200,000, pedwar am £200.000 - £250,000 a dau dros £250,000.

Oedolion ifanc yn byw gyda'i rhieni

Mae'r 5 ymateb a gafwyd gan y grŵp yma o drigolion yn ddiddorol am y rheswm nad ydynt ar restr aros am gartrefi cymunedol.
Mae 3 allan o'r pump yn edrych am brynu tŷ fel rhan o gynllun cost isel. Mae 2 ohonynt mewn gwaith ac un mewn addysg ôl radd. Mae un arall sydd allan o waith yn edrych i gael rhentu tŷ.

Ymateb i'r wybodaeth a geir ynglŷn â anghenion lletya oedolion ifanc

Yn seiliedig ar y wybodaeth uchod, buasai creu tai sydd yn cyfarfod anghenion trigolion hŷn ac anabl y pentref gyda'r potensial i ryddhau 9 o dai ychwanegol i'r stoc tai a fuasai ar gael ar gyfer oedolion ieuengach y pentref.
Gyda'r datblygiad enfawr mewn tai yn ardal Penrhosgarnedd ac i fyfyrwyr Prifysgol Bangor yn ddiweddar, mae'n debyg bydd llai o alw am gartrefi y tu allan i Fangor i gyrraedd anghenion poblogaeth y Brifysgol ac Ysbyty Gwynedd. Mae nifer o dai yn Y Felinheli wedi bod yn cael eu rhentu gan myfyrwyr y Brifysgol a gweithwyr Ysbyty Gwynedd dros y blynyddoedd.

I Gloi

Mae Cyngor Cymuned Y Felinheli wedi derbyn tystiolaeth am anghenion tai trigolion y pentref trwy defnyddio holiadur a ddosbarthwyd i bob tŷ yn y pentref. Mae'r Cyngor yn gobeithio bod modd defnyddio'r dystiolaeth hon gan Gyngor Gwynedd wrth ystyried ceisiadau cynllunio ac wrth greu'r Cynllun Datblygu Lleol.
Mae cryn nifer o dai i'w codi eto yn Y Felinheli oherwydd bod nifer o gynlluniau sydd wedi derbyn caniatâd heb eu hadeiladu eto. Yn anffodus, nid yw Y Cyngor Cymuned yn sicr bod y datblygiadau arfaethedig am gyrraedd anghenion pobl hŷn a phobl anabl. Credir mai yn y maes hwn mae yr angen mwyaf o fewn ein cymuned. Gyda'r datblygiadau sydd i ddod yn sgil y ceisiadau sydd wedi cael eu derbyn gan Cyngor Gwynedd, nid oes tystiolaeth bod yna angen am rhagor o gartrefi ag eithrio cartrefi buasai yn addas ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl.

ATODAID B

Adroddiad Cynghorydd Sian Gwenllian Tachwedd 2014

Rhyd Y Fenai : Bum mewn cyfarfod gyda rhai o drigolion Rhyd Y Fenai a swyddog o Gartrefi Cymunedol Gwynedd i drafod gwelliannau i'r stad. Roedd rhai pryderon wedi codi yn sgil y cais cynllunio a chafwyd cyfle i'w trafod a mynegi barn i'r swyddog.

Maes Y Felin : Rwyf wedi gofyn am gyfarfod efo swyddog o CCG i drafod problemau parcio rhai o'r tenantiaid.

Cynllun Mapio Hanes Y Felinheli : Mae'r gwaith yn gyffrous iawn a bydd llawer o ddigwyddiadau dros y misoedd nesaf gan gynnwys arddangosfeydd, cwis, teithiau cerdded a sgyrsiau . Os hoffech wybod mwy, galwch heibio'r Felin Sgwrsio ar ddydd Mercher (10-4) am sgwrs efo cydlynydd y prosiect Gareth Roberts. (rhif ffon Gareth 01286 872014.) Mae Gareth yn awyddus i glywed eich hanesion a gweld eich lluniau/dogfennau am hanes y pentref.

Grŵp Iaith Y Felinheli : mae'r gwaith yn parhau yn sgil yr holiadur a bu noson i gasglu barn pobl am ddyfodol yr iaith yn y pentref.

Parcio: Rwyf mewn trafodaethau gyda'r Eglwys ynglŷn a defnyddio tir tu ôl i Neuadd yr Eglwys fel maes parcio.

Goleuadau traffig Ffordd Caernarfon: Mae rhain wedi mynd erbyn hyn.

Cais Cynllunio Parc Ynni Haul, Parcia: Cynigiodd y cwmni £15,000 yr un i'r ddau gyngor (Felin a Chaernarfon) ac mae Clerc Caernarfon yn ymchwilio i weld faint sy'n arferol i'w roi fel 'budd cymunedol' gyda chynlluniau ynni haul.

Hen Gei Llechi: Mae'r 'barriers' wedi eu symud oddi ar y lon ond mae'r Cyngor yn dweud fod rhaid eu cadw ar ymyl y ffordd am resymau diogelwch y cyhoedd Mae cyfnod monitro stepiau Cei wedi ei ymestyn am nad yw'r Cyngor yn hapus fod yr ardal yn saff i'r cyhoedd oherwydd y crac yn y wal. Mae'r crac wedi ei lenwi a bydd monitro i weld a oes symudiad dros gyfnod rhewllyd y gaeaf.

Gwefan: www.felinheli.org Cofiwch anfon eich lluniau a newyddion am ddigwyddiadau i post@felinheli.org. Mae gwybodaeth yma am gyfarfodydd a digwyddiadau. Mae tudalen Facebook Y Felinheli yn boblogaidd iawn hefyd gyda dros 500 yn dilyn y dudalen.

Nadolig Felinheli

Sul 21 Rhagfyr am 5 pm
Neuadd Goffa Felinheli

Band Porthaethwy, Canu Carolau, Stondinau Nadoligaidd, Siôn Corn

£2 yn cynnwys mins pei a gwin cynnes (plant am ddim)

Noson Gymraeg wedi ei threfnu gan Gwyl Y Felin a'i noddi gan Hunaniaith

Felin Sgwrsio: Bore Coffi Nadoligaidd 27.11.2014

Cymdeithas Heli'r Heulyn : Tachwedd 13: Y Sw, efo Tudor Owen